



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Canllawiau eu gwneud o dan adran 7 o Fesur Gwastraff (Cymru) 2010 – i gefnogi'r Targedau Adennill Awdurdod Lleol)

# Canllawiau

**CANLLAWIAU O DAN ADRAN 7 MESUR GWASTRAFF (CYMRU) 2010 – I**  
**ATEGU TARGEDAU ADFER AWDURDODAU LLEOL**

<b>Cynnwys</b>	<b>Tudalen</b>
1.0 Cyflwynaid i'r Canllawiau	1
2.0 Targedau	2
3.0 Diffiniadau	3
3.1 Gwastraff i'w gynnwys fel gwastraff trefol awdurdod lleol	3
3.1.1 Compostio gartref	3
3.1.2 Pridd a rwbel	3
3.1.3 Cerbydau wedi'u gadael	3
3.1.4 Gwastraff glanhau'r traeth	4
3.1.5 Bwrdd plastr	4
3.1.6 Lludw Gwaelod Llosgydd (IBA)	4
3.1.7 Gweddillion Rheoli Llygredd AER (APCR)	4
3.1.8 Teiars	4
3.1.9 Gwastraff clinigol a hylendid	5
3.1.10 Ysgubion ffordd a gwastraff gyliau	5
3.1.11 Asbestos	5
3.2 Ailgylchu, paratoi i aildddefnyddio a chompostio	5
3.2.1 Diffinio ailgylchu	5
3.2.2 Diffinio paratoi i aildddefnyddio	7
3.2.3 Diffinio compostio	7
3.3 Ailgylchu Gwastraff Penodol	8
3.3.1 Pridd a rwbel	8
3.3.2 Gwastraff glanhau traethau	8

3.3.3	Bwrdd plastr	8
3.3.4	Lludw Gwaelod Llosgydd (IBA)	8
3.3.5	Gweddillion Rheoli Llygredd Aer (APCR)	8
3.3.6	Teiars	9
3.3.7	Gwastraff clinigol a hylendid	9
3.3.8	Ysgubion ffordd a gwastraff gyliau	9
3.3.9	Pren	9
3.3.10	Ailgylchu carpedi	9
4.0	Monitro a chyflwyno adroddiadau	10
4.1	WasteDataFlow a gofynion cyflwyno adroddiadau	10
4.2	Cyrchfannau terfyn a chyfraddau gwrthod	10
4.3	Dyrannu deunyddiau a wrthodwyd a samplu mewn Cyfleusterau Adfer Deunyddiau a chyfleusterau gwastraff eraill	11
4.4	Cyfrifo cyfraddau adfer (ailgylchu, paratoi i aildddefnyddio a chompostio) ar WasteDataFlow	14

## 1.0 Cyflwyniad i'r Canllawiau

Daeth Gorchymyn Targedau Ailgylchu, Paratoi i Ailddefnyddio a Chompostio (Diffiniadau) (Cymru) 2011<sup>1</sup> a Gorchymyn Targedau Ailgylchu, Paratoi i Ailddefnyddio a Chompostio (Monitro a Chosbau) (Cymru) 2011<sup>2</sup> i rym ar 30 Mawrth 2011. Mae'r ddau offeryn statudol wedi'u gwneud o dan ddarpariaethau Mesur Gwastraff (Cymru) 2010<sup>3</sup> ac maent yn ategu'r Targedau Adfer Awdurdodau Lleol a osodwyd yn y Mesur.

Diben y canllawiau hyn, a gynhyrchwyd o dan adran 7 Mesur Gwastraff (Cymru) 2010 yw egluro'r diffiniadau o ailgylchu, paratoi i aildddefnyddio a chompostio a geir yn y Gorchymyn a'r gofynion monitro a chyflwyno adroddiadau a geir yn y Rheoliadau.

Drwy gydol y Canllawiau hyn cyfeirir at Dargedau Adfer Awdurdodau Lleol, gan adlewyrchu'r ffaith bod ailgylchu, paratoi i aildddefnyddio a chompostio (gan gynnwys treuliad anerobig) yn weithgareddau adfer. At ddibenion y targedau a bennwyd ym Mesur Gwastraff (Cymru) a'r Canllawiau hyn, **unig ystyr adfer yw ailgylchu, paratoi i aildddefnyddio a chompostio (yn cynnwys treuliad anerobig) - fel y'u nodir yn adrannau 3(2) a 3(5) y Mesur.**

---

<sup>1</sup> O.S. 2011/551 (W 77)

<sup>2</sup> O.S. 2011/1014 (W 152)

<sup>3</sup> 2010 nawm 8/No 8

## 2.0 Targedau

Mae'r targedau a nodwyd yn adran 3 (3) o Fesur Gwastraff (Cymru) 2010 yn cyfrannu at roi ar waith ymrwymiad Llywodraeth Cymru i hyrwyddo cymdeithas sy'n ailgylchu llawer. Pennwyd y targedau yn dilyn ymgynghoriad helaeth drwy bapurau *Future Directions*<sup>4</sup>, ymgynghoriad ar *Tuag at Ddyfodol Diwastraff* a Rhan 1 o'r *Cynllun Sector Trefol*.

Mae pob targed yn gymwys i Awdurdodau Lleol unigol yng Nghymru. Caiff y targedau eu monitro drwy ddefnyddio data a ddarperir gan Awdurdod Lleol drwy'r gronfa ddata gwastraff genedlaethol WasteDataFlow.

Mae'r targedau'n seiliedig ar bwysau net (h.y. llai deunyddiau a wrthodwyd) y gwastraff a gaiff ei ailgylchu, ei baratoi i'w aildddefnyddio a'i gompostio (yn cynnwys treuliad anerobig) wedi'i rannu gan gyfanswm tunelli gwastraff trefol a gasglwyd gan awdurdod lleol:

Adfer cyffredinol (%) =  $\frac{\text{Gwastraff a gaiff ei ailgylchu, ei baratoi i'w aildddefnyddio a'i gompostio}}{\text{Cyfanswm gwastraff trefol awdurdod lleol}} \times 100$

Mae'r targedau a bennwyd ym Mesur Gwastraff (Cymru) 2010 yn dargedau adfer gofynnol (h.y. ailgylchu, paratoi i aildddefnyddio a chompostio). :

	2012-13	2015-16	2019-20	2024-25
Targedau adfer %	O leiaf 52	O leiaf 58	O leiaf 64	O leiaf 70

Y targedau adfer gofynnol (h.y. ailgylchu, paratoi i aildddefnyddio a chompostio) ar gyfer pob blwyddyn o 2012-13 yw:

2012-13 = 52%  
2013-14 = 52%  
2014-15 = 52%  
2015-16 = 58%  
2016-17 = 58%  
2017-18 = 58%  
2018-19 = 58%  
2019-20 = 64%  
2020-21 = 64%  
2021-22 = 64%  
2022-23 = 64%  
2023-24 = 64%  
2024-25 = 70%

<sup>4</sup> Cyfres o dri phapur trafod polisi oedd papurau Future Directions a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru rhwng mis Hydref 2007 a mis Ebrill 2009.

### **3.0 Diffiniadau o'r hyn yw gwastraff trefol mewn cysylltiad â Thargedau Adfer Awdurdodau Lleol o dan adran 3(3) Mesur Gwastraff (Cymru) 2010.**

Mae'n bwysig ystyried materion yn ymwneud â diffiniad yn eu tro. Yn adran 3.1 isod ceir eglurhad o ystyr gwastraff trefol awdurdod lleol. Yn 3.2 esbonnir pa fathau o'r gwastraff hwn y gellir ei ystyried yn wastraff wedi'i ailgylchu, wedi'i baratoi i'w aildddefnyddio neu wedi'i gompostio (yn cynnwys gwastraff wedi'i dreulio'n anerobig) ac yn adran 3.3 ystyrir ailgylchu mathau penodol o wastraff.

#### **3.1 Gwastraff i'w gynnwys fel gwastraff trefol awdurdod lleol**

O dan adran 3(8) o Fesur Gwastraff (Cymru) 2010, mae gwastraff trefol Awdurdodau Lleol yn cynnwys gwastraff a gasglwyd o dan adran 45 ac isadrannau 1(b) a (3) o adran 51 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Gall hefyd gynnwys gwastraff arall fel y nodir gan orchymyn Gweinidogion Cymru o dan adran 3(8)(c) y Mesur, er nad oes Gorchymyn o'r fath wedi'i wneud hyd yma.

Dim ond gwastraff a gesglir gan Awdurdodau Lleol neu eu hasiantau o dan adrannau perthnasol Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (y cyfeirir ati uchod) a gaiff ei ystyried yn wastraff trefol awdurdod lleol.

Caiff rhai mathau penodol o wastraff eu hystyried yn eu tro.

##### **3.1.1 Compostio gartref**

Ni chaiff deunydd a gaiff ei gompostio yn y cartref ei gasglu gan awdurdodau lleol o dan adrannau 45 neu 51 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 ac felly nid yw'n wastraff trefol awdurdod lleol. **Nid** yw'n cyfrannu'n uniongyrchol at Dargedau Adfer Awdurdodau Lleol.

##### **3.1.2 Pridd a rwbel**

At ddibenion Targedau Adfer Awdurdodau Lleol, ystyrir pridd a rwbel a ddanfonir i gyfleusterau (safleoedd amwynder dinesig a chanolfannau ailgylchu gwastraff cartrefi) a ddarperir o dan adran 51(1)(b) a 51(3) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 yn wastraff trefol Awdurdod Lleol.

##### **3.1.3 Cerbydau wedi'u gadael**

Nid yw cerbydau wedi'u gadael yn wastraff trefol awdurdod lleol ac **nid** ydynt yn cyfrif tuag at Dargedau Adfer Awdurdodau Lleol. Dylai data sy'n ymwneud â rheoli cerbydau wedi'u gadael barhau i gael ei fewnbynnu ar WasteDataFLow.

### 3.1.4 Gwastraff glanhau'r traeth

Daw sbwriel o draethau o dan adran 89(1)(c) Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 a rheoliad 5 ac Atodlen 1(3) Rheoliadau Gwastraff a Reolir (Cymru a Lloegr) 2012<sup>5</sup> ac y mae felly yn wastraff trefol Awdurdodau Lleol at ddiben Targedau Adfer Awdurdodau Lleol a bennwyd o dan Fesur Gwastraff (Cymru) 2010.

Er eglurder, mae tir perthnasol yn y cyd-destun hwn yn cynnwys ardaloedd o draethau sydd dan reolaeth uniongyrchol awdurdod lleol, y caniateir i'r cyhoedd fynd iddynt ac sy'n uwch na'r man y mae'r llanw'n llifo ato pan fydd gorllanw cymedrig.

Nid yw anifeiliaid môr marw a geir ar draethau yn cyfrif fel gwastraff glanhau traethau.

### 3.1.5 Bwrdd plastr

Mae Bwrdd Plastr yn cael ei ystyried yn wastraff trefol Awdurdodau Lleol lle bo'n cael ei gasglu mewn cyfleusterau casglu Awdurdodau Lleol a ddarperir o dan adran 51, neu ei gasglu o dan adran 45 Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

### 3.1.6 Llundw Gwaelod Llosgydd (IBA)

Ystyrir bod Llundw Gwaelod Llosgydd (IBA) [a gweddillion eraill o ynni prosesau gwastraff, e.e. golosg o nwyeddio, ond nid gweddillion rheoli llygredd aer (APCR), gweler isod] a gynhyrchir ar ôl hylosgi gwastraff trefol awdurdod lleol arall (h.y. gwastraff a gesglir o dan adrannau 45 a 51 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990) yn wastraff trefol awdurdod lleol.

### 3.1.7 Gweddillion Rheoli Llygredd Aer (APCR)

Mae APCR, y cyfeirir ato'n gyffredin fel 'lludw fflacs' (*fly ash*) yn isgynnyrch y broses hylosgi gwastraff a chyflwyno deunyddiau i niwtraleiddio neu ddal allyriadau nwyol a gronynnol o'r broses hylosgi. Ystyrir bod y gyfran honno o APCR a gynhyrchir yn uniongyrchol o'r broses o hylosgi gwastraff trefol awdurdod lleol (h.y. gwastraff a gesglir o dan adrannau 45 a 51 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990) yn wastraff trefol awdurdod lleol.

Wrth gyfrifo cyfran yr APCR sy'n wastraff trefol awdurdod lleol, mae'n bwysig bod pob deunydd a ychwanegir at gynhyrchion hylosgi i'w niwtraleiddio yn cael ei dynnu o'r cyfanswm. Ychwanegir y deunyddiau hyn i drin cynhyrchion proses hylosgi gwastraff trefol Awdurdod Lleol ac nid ydynt ynddynt eu hunain yn wastraff trefol Awdurdod Lleol. **Dim ond pwysau sych APCR sy'n deillio o gynhyrchion proses hylosgi gwastraff trefol awdurdod lleol y dylid ei gynnwys yn WasteDataFlow.**

### 3.1.8 Teiars

Nid yw teiars yn wastraff trefol awdurdod lleol os cânt eu casglu fel rhannau cerbydau wedi'u gadael. Lle caiff teiars eu casglu o dan adrannau 45 neu 51 o

---

<sup>5</sup> O.S. 2012/811 - The Controlled Waste (England and Wales) Regulations 2012

Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 byddant yn cyfrif tuag at wastraff trefol yr Awdurdod Lleol. Disgwylir mai dim ond nifer fach o deiars a gesglir drwy'r llwybrau hyn. Lle bydd awdurdod lleol yn clirio gwastraff a dipiwyd yn anghyfreithlon yn ei rinwedd fel Awdurdod Casglu Gwastraff neu brif awdurdod sbwriel, yna caiff unrhyw deiars a gesglir eu hystyried yn wastraff trefol Awdurdodau Lleol.

### **3.1.9 Gwastraff clinigol a hylendid**

Ystyrir mai cyfrifoldeb y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol dan sylw yw unrhyw wastraff a gynhyrchir mewn cartref yn dilyn triniaeth gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n ymweld â'r cartref hwnnw. Nid yw felly yn wastraff trefol Awdurdod Lleol.

Gellir gwaredu gwastraff hylendid (cadachau misglwyf, cewynnau a phadiau anymatal) gyda gwastraff y cartref cyn belled nad yw'n beryglus. Neu gellir eu casglu ar wahân ar gyfer eu hadfer.

Bydd unrhyw wastraff clinigol neu hylendid a gesglir ar ran Awdurdod Lleol o dan adran 45 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 yn wastraff trefol Awdurdod Lleol.

### **3.1.10 Ysgubion ffordd a gwastraff gyliau**

Caiff ysgubion y ffordd a'r stryd eu casglu gan Awdurdodau Lleol o dan adran 89(2) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 ac maent wedi'u cynnwys fel gwastraff cartref yn Atodlen 1(3) Rheoliadau Gwastraff a Reolir 1992. O ganlyniad, cwmmpesir y gwastraff hwn gan adran 45 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 ac felly gwastraff trefol yr awdurdod lleol ydyw.

Mae gwastraff gyliau (golchion o sianelau draenio ar ffyrdd a meysydd parcio i botiau tanddaearol) yn cynnwys amrywiaeth o ddeunyddiau yn cynnwys graean, dail a sbwriel. Lle cesglir y rhain o dan adran 89(2) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, fe'u diffinnir fel gwastraff cartrefi yn Atodlen 1(3) Rheoliadau Gwastraff a Reolir 2012 ac y mae felly'n wastraff trefol awdurdod lleol.

### **3.1.11 Asbestos**

Mae taiddeiliaid yn cael gollwng asbestos mewn safleoedd amwynder dinesig o dan adran 51 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Gall awdurdodau lleol hefyd drefnu i gasglu asbestos o gartrefi o dan adran 45 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Yn y ddau achos, bydd y gwastraff yn wastraff trefol Awdurdodau Lleol.

## **3.2 Ailgylchu, paratoi i aildddefnyddio a chompostio**

Bydd y gwaith o ailgylchu, paratoi i aildddefnyddio a chompostio'r holl ddeunyddiau y cadarnheir eu bod yn wastraff trefol awdurdod lleol yn cyfrif tuag at dargedau ailgylchu, paratoi i aildddefnyddio a chompostio Awdurdodau Lleol. O hyn ymlaen, cyfeirir atynt fel Targedau Adfer Awdurdodau Lleol.



### 3.2.1 Diffinio ailgylchu

Er mwyn i wastraff gael ei ystyried yn wastraff wedi'i ailgylchu mae'n rhaid iddo fodloni'r meini prawf a nodir yn Erthygl 3 o Orchymyn Targedau Ailgylchu, Paratoi i Ailddefnyddio a Chompostio (Diffiniadau) (Cymru) 2011 – bydd wedi'i ailbrosesu'n gynnyrch, deunydd neu sylwedd, boed at y diben gwreiddiol neu at ddiben arall. O ganlyniad, ni fydd bellach yn wastraff. O ran cyfrif gwastraff o'r fath at Dargedau Adfer Awdurdod Lleol, dylid rhoi sylw penodol i adran 4.3 o'r Canllawiau hyn.

**Rhaid peidio** â chyfrif deunyddiau a wrthodwyd yn ystod y broses ddiidoli ar ôl casglu neu a wrthodir wrth ailbrosesu am eu bod yn halogyddion, tuag at Dargedau Adfer Awdurdodau Lleol (oni llwyddir i dynnu'r halogyddion hynny). Rhaid i bob deunydd a wrthodir rhwng y broses gasglu a'r cam ailbrosesu terfynol gael ei gofnodi cyhyd ag y bo'n ymarferol ac ni chaiff ei gynnwys wrth gyfrif cyfraddau adfer drwy'r system WasteDataFlow. Nid yw hyn yn cynnwys deunyddiau a wrthodir yn ystod gwaith ailbrosesu o ganlyniad i'r broses ei hun (e.e. ffibrau byr a gronynnau clai a wrthodwyd yn ystod gwaith ailbrosesu papur).

Nid ystyrir bod dŵr a gollir yn ystod prosesau sy'n trin gwastraff 'sych y gellir ei ailgylchu' (e.e. papur, gwydr, metelau a phlastigau) sydd wedi gwylchu oherwydd glaw neu ddŵr arall, wedi'i ailgylchu ac ni all gyfrannu at Dargedau Adfer Awdurdod Lleol.

Mae hyn yn cynnwys hylifau corfforol a geir mewn cynnyrch hylendid amsugol (AHP) lle bo'r dŵr wedi'i dynnu. Ond os gellir profi i'r hylifau fynd trwy'r broses adfer i gynhyrchu deunydd, cynnyrch neu sylwedd, gallai'r hylifau gyfrif at Dargedau Adfer Awdurdod Lleol.

Mae hyn yn groes i'r drefn compostio neu dreulio gwastraff dŵr neu wastraff gwyrdd, lle caiff pwysau'r deunyddiau dan sylw (llai halogiad) ei gyfrif tuag at y targedau adfer. Mae dŵr yn gydran gynhenid o fwyd a gwastraff gwyrdd ac mae'n cyfrannu at y targedau adfer ar gyfer y deunyddiau hyn. Nid yw dŵr yn gydran gynhenid o wastraff 'sych y gellir ei ailgylchu'.

Ni ddylid cyfrif unrhyw gynnyrch, deunydd neu sylwedd a ddefnyddir i ôl-lenwi<sup>6</sup> (yn cynnwys biowastraff wedi'i drin) fel gwastraff wedi'i adfer ar gyfer Targedau Adfer Awdurdod Lleol a bennwyd o dan Fesur Gwastraff (Cymru) 2010.

Lle caiff IBA sy'n deillio o'r broses hylosgi gwastraff trefol Awdurdod Lleol ei ailgylchu trwy ei ailbrosesu, bydd ei bwysau sych yn cyfrif tuag at Dargedau Adfer Awdurdod Lleol.

Lle caiff APCR sy'n deillio o'r broses hylosgi gwastraff trefol Awdurdod Lleol ei ailgylchu trwy ei ailbrosesu, bydd pwysau sych y gyfran honno o APCR sy'n deillio o hylosgi gwastraff trefol a gesglir gan Awdurdod Lleol yn cyfrif tuag at Dargedau Adfer Awdurdod Lleol. Dyma fydd y ffraciwn llwch, ac mae'n debygol o fod yn gyfran fach

---

<sup>6</sup> Ystyr ôl-lenwi yw proses adfer lle caiff gwastraff addas ei ddefnyddio at ddibenion adfer mewn ardaloedd wedi'u cloddio neu at ddibenion peirianeg wrth dirlunio a lle caiff y gwastraff ei ddefnyddio yn lle deunyddiau diwastraff. .

o bwysau cyffredinol gweddillion yr APCR. **Ni** chaiff unrhyw bwysau o APCR o ganlyniad i ddeunydd a gyflwynwyd i adweithio ag isgynhyrchion y broses hylosgi gyfrif tuag at Dargedau Ailgylchu Awdurdod Lleol.

### **3.2.2 Diffiniad paratoi i aildddefnyddio**

Er mwyn i wastraff gael ei ystyried yn barod i'w aildddefnyddio, rhaid iddo fodloni'r meini prawf a nodir yn Erthygl 4 o Orchymyn Targedau Ailgylchu, Paratoi i Aildddefnyddio a Chompostio (Diffiniadau) (Cymru) 2011. Ar ôl atal gwastraff, paratoi i aildddefnyddio yw'r opsiwn ail orau yn yr hierarchaeth gwastraff a gall wneud cyfraniadau sylweddol at leihau'r ôl troed carbon ac ecolegol.

Y tri gweithgaredd adfer a ganiateir ar gyfer paratoi i aildddefnyddio yw archwilio, glanhau a thrwsio.

Mae'n bwysig iawn bod pob eitem sy'n cael ei pharatoi i'w haildddefnyddio yn cael ei harchwilio'n drylwyr gan berson cymwys sydd wedi'i hyfforddi er mwyn sicrhau ei bod yn ddiogel, yn cyrraedd y safonau gofynnol ac yn cydymffurfio'n llwyr â'r gyfraith cyn ei haildddefnyddio. Mae hyn yn cynnwys archwilio, profi ac ardystio eitemau trydanol a chadarnhau bod celfi meddal ac eitemau eraill yn bodloni'r holl ofynion diogelwch tân.

Mae atgyweirio eitemau yn cynnwys gosod cydrannau neu rannau newydd yn lle rhai hen, wedi'u difrodi neu nad ydynt yn gweithio. Mae hyn yn cynnwys pob gwaith coed sy'n ofynnol i atgyweirio eitemau pren (yn cynnwys celfi), pob gwaith metel ar eitemau perthnasol, gosod gwydr newydd mewn drychau ac ati ac ail-glustogi celfi - a phob gwaith arall sy'n ofynnol er mwyn sicrhau bod eitem yn addas i'w defnyddio at ei diben gwreiddiol.

Unwaith y bydd yr eitemau wedi'u paratoi ar gyfer eu haildddefnyddio a'u bod yn barod i gael eu haildddefnyddio, rhaid nodi eu pwysau yn y WasteDataFlow fel eu bod yn cyfrif tuag at Dargedau Adfer Awdurdod Lleol.

### **3.2.3 Diffiniad compostio a threuliad anerobig (AD)**

Er mwyn ystyried bod gwastraff wedi'i gompostio, mae'n rhaid iddo fodloni'r meini prawf a nodir yn Erthygl 5 o Orchymyn Targedau Ailgylchu, Paratoi i Aildddefnyddio a Chompostio (Diffiniadau) (Cymru) 2011. Mae Erthygl 5(1)(a) o'r Gorchymyn yn cadarnhau, at ddibenion adran 3 Mesur Gwastraff (Cymru), bod 'compostio' yn cynnwys prosesau compostio a threuliad anerobig.

Gellir ystyried bod gwastraff biogddiraddadwy (e.e. gwastraff bwyd a gwastraff gardd gwyrdd) wedi'i gompostio os yw'n cael ei adfer i gynhyrchu cynnyrch, deunydd neu sylwedd y gellir ei ddefnyddio fel cyflyrydd pridd, gwrtaith neu gyfrwng tyfu.

Lle bo compostau a gweddillion treuliad yn cydymffurfio ag Erthygl 5 y Gorchymyn, y swm yr ystyrir ei fod wedi'i adfer at ddibenion y targedau a bennwyd o dan Fesur Gwastraff (Cymru) 2010 fydd pwysau'r hyn a fydd yn mynd i gyfleuster compostio neu dreuliad anerobig heb gynnwys deunyddiau a wrthodwyd (yn cynnwys plastigau, metelau, gwydr, eitemau sy'n rhy fawr a lle y bo'n briodol fagiau startsh yd).

Rhaid **peidio** â chyfrif deunydd a wrthodir wrth ddiidoli ar ôl casglu neu ddeunydd a wrthodir yn y cyfleuster compostio/treuliad gan eu bod yn halogyddion at Dargedau Adfer Llywodraeth Leol (oni bai bod y halogyddion eu hunain yn cael eu hadfer wedi hynny).

### **3.3 Ailgylchu neu Gompostio Gwastraff Penodol**

Gall y mathau canlynol o wastraff gyfrif at Dargedau Adfer Awdurdod Lleol cyn belled â'u bod yn wastraff trefol Awdurdod Lleol ac:

- Eu bod wedi'u hadfer trwy ailbroseu i gynhyrchu cynnyrch, sylwedd neu ddeunydd, fel ag yn Erthygl 3 y Gorchymyn; neu
- eu compostio neu eu treulio'n anerobig i gynhyrchu cynnyrch, sylwedd neu ddeunydd y gellir ei ddefnyddio fel cyflyrydd pridd, gwrtaith neu gyfrwng tyfu fel ag yn Erthygl 5 y Gorchymyn.

Yn y naill achos a'r llall, bydd y deunydd wedi peidio â bod yn wastraff.

Ceir diffiniad llawn o Wastraff Trefol Awdurdod Lleol ym mharagraff 3.1 y canllawiau hyn.

#### **3.3.1 Pridd a rwbel**

Gall pridd a rwbel gyfrif at Dargedau Adfer Awdurdod Lleol os ydynt yn cael eu hailbroseu i gynhyrchu cynnyrch, sylwedd neu ddeunydd,

#### **3.3.2 Gwastraff glanhau traethau**

Gall gwastraff glanhau traethau gyfrif at Dargedau Adfer Awdurdod Lleol os yw'n cael ei ailbroseu i gynhyrchu cynnyrch, sylwedd neu ddeunydd,

#### **3.3.3 Bwrdd plastr**

Gall bwrdd plastr gyfrif at Dargedau Adfer Awdurdod Lleol os yw'n cael ei ailbroseu i gynhyrchu cynnyrch, sylwedd neu ddeunydd,

#### **3.3.4 Lludw Gwaelod Llosgydd (IBA)**

Gall IBA gyfrif at Dargedau Adfer Awdurdod Lleol os yw'n cael ei ailbroseu i gynhyrchu cynnyrch, sylwedd neu ddeunydd yn unol ag Erthygl 3 y Gorchymyn.

#### **3.3.5 Gweddillion Rheoli Llygredd Aer (APCR)**

Gall Gweddillion Rheoli Llygredd Aer gyfrif at Dargedau Adfer Awdurdod Lleol os ydynt yn cael eu hailbroseu i gynhyrchu cynnyrch, sylwedd neu ddeunydd yn unol ag Erthygl 3 y Gorchymyn ac yn gyson â pharagraff 3.3.1.

### **3.3.6 Teiars**

Gall ailgylchu teiars gyfrif at Dargedau Adfer Awdurdod Lleol os ydynt yn cael eu hailbroseu i gynhyrchu cynnyrch, sylwedd neu ddeunydd yn unol ag Erthygl 3 y Gorchymyn.

### **3.3.7 Gwastraff Clinigol a Hylendid**

Mae'n bosib ailgylchu rhai mathau o wastraff sy'n cael eu hystyried yn wastraff clinigol. Y prif enghreifftiau o hyn yw cynnyrch hylendid amsugol (AHP) fel cewynnau a phadiau anymataliaeth. Mae'r mathau hyn o wastraff yn cael eu categorio yn y Rhestr Gwastraff fel:

*18 01 04 wastes whose collection and disposal is not subject to special requirements in order to prevent infection (for example dressings, plaster casts, linen, disposable clothing, diapers).*

Gall y mathau hyn o wastraff gyfrif at Dargedau Adfer Awdurdod Lleol os ydynt yn cael eu hailbroseu i gynhyrchu cynnyrch, sylwedd neu ddeunydd yn unol ag Erthygl 3 y Gorchymyn. Cyfrifir canran cyfradd ailgylchu AHP yn ôl pwysau'r deunydd sy'n cael ei ailgylchu.

### **3.3.8 Ysgubion ffordd a gwastraff gyliau**

Gall ysgubion ffordd a gwastraff gyliau gyfrif at Dargedau Adfer Awdurdod Lleol os ydynt yn cael eu hailbroseu i gynhyrchu cynnyrch, sylwedd neu ddeunydd yn unol ag Erthygl 3 y Gorchymyn neu os ydynt yn cael eu compostio neu eu treulio'n anerobig i gynhyrchu cynnyrch, deunydd neu sylwedd y gellir ei ddefnyddio fel cyflyrydd pridd, gwrtaith neu gyfrwng tyfu fel Erthygl 5 y Gorchymyn.

### **3.3.9 Pren**

Gall pren gyfrif at Dargedau Adfer Awdurdod Lleol os yw'n cael ei ailbroseu i gynhyrchu cynnyrch, sylwedd neu ddeunydd yn unol ag Erthygl 3 y Gorchymyn neu os yw'n cael ei gompostio neu ei dreulio'n anerobig i gynhyrchu cynnyrch, deunydd neu sylwedd y gellir ei ddefnyddio fel cyflyrydd pridd, gwrtaith neu gyfrwng tyfu fel Erthygl 5 y Gorchymyn. Nid yw pren sy'n cael ei hyllogi (e.e. Ynni o Wastraff) yn cyfrif at Dargedau Adfer Awdurdod Lleol.

### **3.3.10 Ailgylchu Carpedi**

Gall carpedi wedi'u rhwygo gyfrif at Dargedau Adfer Awdurdod Lleol os ydynt yn cael eu hailbroseu i gynhyrchu cynnyrch, sylwedd neu ddeunydd yn unol ag Erthygl 3 y Gorchymyn

## **4.0 Monitro a chyflwyno adroddiadau**

Bwriedir i Dargedau Adfer Awdurdod Lleol a bennwyd o dan Fesur Gwastraff (Cymru) 2010 hyrwyddo lefelau uwch o adfer a sicrhau manteision cydredol. Caiff hyn ei fonitro drwy gyflwyno data cywir ac amserol, sy'n allweddol i lwyddiant y ddeddfwriaeth sy'n pennu targedau a'r strategaethau sy'n sail i'r ddeddfwriaeth honno.

### **4.1 WasteDataFlow a gofynion cyflwyno adroddiadau**

Mae Rheoliad 5 o Reoliadau Targedau Ailgylchu, Paratoi i Aildddefnyddio a Chompostio (Monitro a Chosbau) (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol ddefnyddio cronfa ddata gwastraff genedlaethol WasteDataFlow fel ffordd o gyflwyno adroddiadau ar ffrydiau gwastraff mewn modd all gyfrif cyfraddau adfer Awdurdodau Lleol.

Mae'r cyfnodau adrodd yn dri mis yr un ac mae'n rhaid cyflwyno ffurflenni data o fewn mis ar ôl diwedd y cyfnod tri mis.

### **4.2 Cyrchfannau terfyn a chyfraddau gwrthod**

Rhaid cyflwyno adroddiadau cywir ac amserol ynghylch y Targedau Adfer Awdurdodau Lleol a bennwyd o dan Fesur Gwastraff (Cymru) 2010 a dim ond deunydd sydd wedi'i ailgylchu, ei baratoi i'w aildddefnyddio neu wedi'i gompostio (yn cynnwys gweddillion sydd wedi'u treulio'n anerobig) a gaiff eu cyfrif wrth gyfrifo cyfraddau adfer Awdurdodau Lleol. Mae cywirdeb y gwaith cyfrifo hwn yn dibynnu ar gael data cywir ar gyfraddau gwrthod (gweler adrannau 3.2.1 a 3.2.3), gan gynnwys y rheini o gyfleusterau didoli ac ailbrosesu - p'un a oes ganddynt gontractau hirdymor neu eu bod yn rhan o'r 'farchnad ar y pryd'. O'r herwydd, mae'n bwysig bod awdurdodau lleol yn dilyn, cyhyd ag y bo'n ymarferol, y llif deunyddiau ar ôl iddynt gael eu casglu.

Mae'n bwysig bod cyrchfannau terfyn yn cael eu nodi cyhyd ag y bo hynny'n ymarferol. Cyrchfannau terfyn deunyddiau fydd:

- Yr ailbrosesydd deunyddiau lle caiff deunyddiau eu hailgylchu, eu paratoi i'w haildddefnyddio neu eu compostio (yn cynnwys treuliad anerobig) yn gynnyrch, deunydd neu sylwedd.
- Y cyfleuster gwaredu lle caiff deunyddiau a wrthodwyd yn ystod y broses didoli deunyddiau, paratoi eitemau i'w haildddefnyddio neu gompostio (yn cynnwys treuliad anerobig) eu gwaredu neu eu defnyddio i adfer ynni.
- Y wlad gyntaf yr allforir deunydd iddi ar gyfer ei adfer (gweler y Cyflwyniad i'r Canllawiau hyn) y tu allan i'r Deyrnas Unedig (DU).

Lle bynnag y bo'n ymarferol, dylid monitro ffrydiau deunydd o'r man casglu i'r gyrchfan derfyn briodol – gan nodi hefyd y cyfleusterau didoli canolraddol. Datblygwyd Cwestiwn 100 WasteDataFlow i gynorthwyo'r gwaith o gyflwyno data ar ffrydiau gwastraff a rhaid i bob awdurdod lleol yng Nghymru ddefnyddio Cwestiwn 100 o 1af Ebrill 2012.

Mae achlysuron lle gall deunyddiau a gasglwyd fynd drwy nifer o gamau rhwng casglu ac ailbroseu ac yn ystod y rhain, gall gwastraff o Awdurdodau Lleol gwahanol gymysgu â gwastraff nad yw'n wastraff awdurdodau lleol. Gellir anfon y deunyddiau hyn hefyd at fwy nag un ailbroseydd. Mae'n bwysig bod Awdurdodau Lleol yn cofnodi cyfleusterau didoli canolraddol, cyfraddau gwrthod a chyrchfannau terfyn mor fanwl â phosib.

Mae'n bwysig lle bydd Awdurdodau Lleol yn defnyddio contractwyr i gasglu a didoli deunyddiau gwastraff fod eu contractau yn nodi bod gofyn iddynt gyflwyno data amserol a chywir i'r Awdurdodau Lleol. Câi'r drefn ei chryfhau pe bai gofyn i bawb sy'n cyflwyno tendr am gontractau gytuno i ddefnyddio'r drefn a nodir yn Safon 402 ar gyfer adrodd yn ôl i Awdurdodau Lleol. Unwaith y bydd deunyddiau yn mynd heibio'r cam didoli cyntaf, y cyfleuster cam cyntaf (sylfaenol) ddylai bod yn gyfrifol am ofyn i'r cyfleuster eilaidd am wybodaeth am gyfraddau gwrthod a chyrchfannau nesaf. Yna dylai'r cyfleuster sylfaenol drosglwyddo'r wybodaeth i'r Awdurdod/au Lleol. Yn eu tro, dylai'r cyfleusterau eilaidd ofyn i'r cyfleusterau trydyddol am wybodaeth a'i throsglwyddo i'r cyfleuster sylfaenol - ac felly yn y blaen. Gwerthfawrogir y bydd monitro a chyflwyno data cywir ar ddeunyddiau a wrthodwyd a chyrchfannau nesaf yn dod yn anos wrth i'r deunyddiau fynd drwy ragor o gamau didoli a thrin cyn eu hailbroseu. Bwriedir i'r drefn a nodir yn adran 4.3 helpu i hwyluso'r gwaith o gyflwyno data. Ar gyfer sypiau ysgafn o ddeunyddiau, sydd wedi mynd drwy nifer o gyfleusterau gwahanol, gall amser a chost casglu a dychwelyd data fod yn fwy na manteision olrhain y ffrwd deunyddiau. Lle bydd Awdurdodau Lleol o'r farn mai felly y mae, dylent ymgynghori â'r Awdurdod Monitro i gytuno ar bwy yw'r gyrchfan derfyn i bob pwrpas. Bydd yr Awdurdod Monitro yn rhoi cyngor ar drefniadau de minimis.

#### **4.3 Dyrannu deunyddiau a wrthodwyd a samplu mewn Cyfleusterau Adfer Deunyddiau a chyfleusterau gwastraff eraill**

Mae'r trefniadau isod yn berthnasol i Gyfleusterau Adfer Deunyddiau a chyfleusterau gwastraff eraill sy'n prosesu gwastraff, er enghraifft pren.

Y ffordd symlaf o ddyrannu deunyddiau a wrthodwyd yw ar sail pro rata. Y cyfleuster gwastraff fydd yn penderfynu faint o ddeunydd a ddarperir iddo o wahanol ffynonellau, p'un a yw'r cyfleuster yn crynhoi deunyddiau'n sypiau mawr neu'n eu didoli cyn eu crynhoi'n sypiau mawr. Felly mae'n hawdd nodi pa ganran o'r hyn sy'n cyrraedd cyfleuster sy'n dod o awdurdod lleol penodol. Bydd yr hyn sy'n gadael cyfleuster didoli yn cael ei rannu'n dri chategori sylfaenol:

- Deunydd y gwrthodwyd ei waredu.
- Deunydd a ddidolwyd at safon sy'n golygu y caiff ei dderbyn gan ailbroseydd.
- Deunydd a ddidolwyd ond y mae angen ei ddidoli ymhellach cyn y caiff ei dderbyn gan ailbroseydd.

Darperir yr enghraifft ganlynol i esbonio sut mae angen gwneud y gwaith cyfrifo.

### Enghraifft 1

Pe bai 10% o'r deunydd sy'n cyrraedd cyfleuster didoli gwastraff yn cael ei wrthod er mwyn ei waredu neu ei droi'n ynni o wastraff, yna ystyrir bod 10% o'r holl ddeunydd sy'n cyrraedd y cyfleuster hwnnw o Awdurdod Lleol penodol wedi'i wrthod. Felly, os yw Awdurdod Lleol yn anfon 1000 tonnelli i gyfleuster didoli a bod ganddo gyfradd gwrthod deunyddiau gyffredinol o 10%, yna nodir ar WasteDataFlow bod 100 tonnelli wedi'i wrthod.

Bydd deunydd o ansawdd digonol a gaiff ei dderbyn gan ailbroesydd yn cynnwys rhywfaint o ddeunydd heb ei dargedu. Bydd yr ailbroesydd yn ei wrthod. Oni chaiff y deunyddiau hyn eu hailgylchu trwy drefniant â'r ailbroesydd, fe'u gwrthodir er mwyn eu gwaredu neu eu troi'n ynni o wastraff. Yn yr un modd, bydd angen eu cyfrif fel deunyddiau a wrthodwyd ar WasteDataFlow.

Os caiff 70% o'r deunydd sy'n cyrraedd Cyfleuster Adfer Deunyddiau ei anfon i ailbroesydd sydd wedyn yn gwrthod 10% o'r deunydd a dderbyniwyd, yna bydd 7% o'r hyn sy'n cyrraedd safle'r ailbroesydd o awdurdod lleol penodol yn ddeunydd a wrthodwyd er mwyn ei waredu neu ei droi'n ynni o wastraff. Felly, os yw Awdurdod Lleol yn anfon 1000 tonnelli i gyfleuster didoli, yna nodir ar WasteDataFlow bod 70 tonnelli wedi'i wrthod gan yr ailbroesydd.

Caiff deunydd nad yw ei ansawdd yn ddigon da i gael ei dderbyn gan ailbroesydd ei anfon i gyfleuster didoli dilynol (eilaidd, trydyddol ac ati) nes y bydd ei ansawdd yn ddigon derbynol i'r ailbroesydd ei dderbyn.


Os caiff 20% o'r deunydd sy'n cyrraedd Cyfleuster Adfer Deunyddiau ei anfon i gyfleuster didoli eilaidd ac yna i ailbroeswyr a gwaredwyr, gyda hanner yn cael ei ailgylchu a hanner yn cael ei waredu yna, o'r 1000 tonnelli a ddaeth o'r Awdurdod Lleol penodol, gwrthodir 100 tonnelli er mwyn ei waredu a nodir hynny ar WasteDataFlow.

Effaith net gwrthod deunyddiau drwy'r tri chategori gwahanol a nodwyd yw y dylai awdurdod lleol sy'n anfon 1000 tonnelli i'r cyfleuster didoli cychwynol nodi'r canlynol ar WasteDataFlow:

Gwrthodwyd er mwyn ei waredu neu i gynhyrchu ynni o wastraff: **270 tonnelli**;  
Ailgylchwyd: **730 tonnelli**.

Dengys Ffigur 1 y tri phrif lwybr lle y caiff deunyddiau a wrthodir eu cynhyrchu ac y dylid cyflwyno adroddiadau arnynt drwy WasteDataFlow, gan ddefnyddio Enghraifft 1 uchod.

**Ffigur 1 - Colli deunyddiau o ganlyniad i wrthod a'r symiau y dylid nodi eu bod wedi'u gwrthod drwy WasteDataFlow**



Dylai'r un drefn a nodir yn Enghraifft 1 fod yn gymwys i bob deunydd, cyfleuster adfer deunyddiau, gorsaf swmpgasglu ac ailbrosewrydd, ni waeth sut y cesglir y deunyddiau. Mae'n rhaid i bob awdurdod lleol gymryd pob cam rhesymol ac ymarferol i gyflwyno adroddiadau manwl a chywir ar bob deunydd a wrthodir ac nad yw yn sgil hynny yn cael ei ailgylchu, yn unol â'r cyfyngiadau a nodir yn adran 4.2.

Bydd gan awdurdodau lleol lefelau halogi gwahanol o ran y deunyddiau a gesglir ganddynt, yn dibynnu ar sut y caiff y deunydd ei gasglu. Bydd system adrodd sy'n seiliedig ar ddosrannu yn cynnig manteision ac anfanteision amrywiol. Mae'n rhywbeth y dylai pob awdurdod lleol ei ystyried wrth benderfynu pa gyfleusterau didoli sydd eu hangen ar gyfer ei ddeunyddiau.

Mae samplu yn ddewis amgen i ddosrannu, felly yn hytrach nag asesu deunyddiau a wrthodir ar sail pro rata yn seiliedig ar fewnbynau, caiff y mewnbynau eu hunain eu samplu ac amcangyfrifir faint o ddeunydd wedi'i wrthod tebygol ar sail y gallu a aseswyd i ailgylchu deunyddiau cydrannol. Gall hyn arwain at ddata cywirach ar gyfer pob awdurdod unigol. Fodd bynnag, gall hefyd fod yn fwy beichus. Dim ond ar ôl ymgynghori â'r Awdurdod Monitro y dylid samplu mewnbynau o ddeunydd didoli,



ac mae angen rhoi sicrwydd i'r Awdurdod hwnnw bod y broses samplu yn cynrychioli'r mewnbynnau, bod amllder y samplu yn briodol a bod y protocolau a'r arferion samplu mor gadarn fel y bydd data cywir yn cael eu darparu i'w rhoi ar WasteDataFlow.

Cewch fwy o wybodaeth am y drefn samplu oddi wrth yr Awdurdod Monitro.

#### **4.4 Cyfrifo cyfraddau adfer (ailgylchu, paratoi i aildddefnyddio a chompostio) ar WasteDataFlow**

Bydd y gwaith o gyfrifo cyfraddau adfer Awdurdodau Lleol (ailgylchu, paratoi i aildddefnyddio a chompostio) yn seiliedig ar ddata a ddarperir gan Awdurdodau Lleol i WasteDataFlow (WDF). Cyfrifir y perfformiad cyffredinol yn erbyn targedau drwy ystyried:

Cyfanswm y Gwastraff a adferir /Cyfanswm Gwastraff Trefol Awdurdod Lleol x 100, fel ym mharagraff 2 y Canllawiau hyn.

Y Cyfanswm a Adferir yw swm yr holl fathau o ddeunyddiau perthnasol sydd wedi ymuno â'r WDF ar gyfer eu hadfer (heb gynnwys cerbydau wedi'u gadael) ac sydd wedi'u hanfon i'w cyrchfannau terfyn h.y. nifer y tunellau nodwyd wrth Gyrchfan Derfyn yng Nghwestiwn 100 (cyfateb i'r hen gwestiynau 19, 19a a 35).

Mae'r dull newydd hwn yn symleiddio'r hafaliad yn sylweddol ac mae'n gynrychioliad mwy cywir o'r hyn a gaiff ei ailgylchu mewn gwirionedd yn ystod y cyfnod hwnnw a'r ffordd y caiff gwastraff ei reoli yn gyffredinol, gan Awdurdod Lleol.